195

# CERDD ALARUS,

YN RHODDI HANES AM

# *LEWIS OWEN*,

YR HWN A DDIENYDDWYD

## AR FORFA SEIONT,

## Gerllaw Caerynarfon,

Ar ddydd Mercher Medi 4ydd, 1822.



Efe a garcharwyd am amcanu lladd Mr. STURDY, Arolyg-wr (*Supervisor*,) Conwy.

LLANRWST; ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

# CAN NEWYDD.

*Cenir ar "Fryniau'r Iwerddon".*

TRIGOLION Môn ac Arfon, a Dinbych dirion dewch
Trefaldwyn, Flint a Meirion, naws union cyd-nesewch;
Ni a welsom yn Nghaernarfon drallodion trymion trist,
O achos byw'n anufydd, a gwrthod crefydd Crist.

'Roedd gwr gerllaw Rhyd lydan yn gyfan a digel,
A'i fwriad ar ddrygioni heb gofio'r farn a ddel;
Ei enw oedd LEWIS OWEN, yn gyfan chwi a gewch
Gan i ei hanes union yn dirion os gwrandewch.

Bu hwn yn nyddiau ie'ngctid mewn bywyd yn y byd,
Yn filwr dros y Deyrnas, ei gyffes gewch i gyd;
Yn Nghymru ac yn Lloegr, mewn gwychder lawer gwaith
Nes gwneuthur gweithred aflan 'roes ddyben ar ei daith.

Fe aeth ar ryw ddiwrnod, mawr syndod i ni sydd;
A hyn rhwng Capel Curig a Bangor goror gudd;
Cyfarfu *Supervisor* mwyn tyner wiwber waith,
Cyn rhoddi dim rhybyddion ei saethu'n union wnaeth.

Fe saethodd atto ddwywaith fel mae gwybodaeth bur,
I'w weled mewn hanesion yn dirion i ni ar dir,
Fe syrthiai 'ddiar ei geffyl, a'i waed i'r llawr yn lli
Er hyny i gyd fe'i mendiwyd trwy allu Un a Thri.

Fe ddygodd yntau'i Geffyl i fyn'd i ben ei daith,
Heb feddwl fod yr Iesu yn gwgu ar y gwaith:
Aeth dyn i chwilio am dano, ei ffendio'n union wnaeth,
Fe gafodd help yn Nantglyn i'w ddwyn i'r carchar caeth.

I Ddinbych 'r aeth yn union mewn moddion tirion teg,
Fe'i caed E mewn tŷ tafarn, a hyny o ddeutu deg,
Yr oedd E mewn llawenydd heb dramgwydd iddo ar dor,
Fe'i rhoed E yn y carchar, modd claiar dan y clo.

Fe'i rhoed E yn ngharchar Rhuthyn yn gyflym dyna'r gwir,
Oddi yno i Gaernarfon i gael ei farnu'n bur;
Ca'dd aros yno ddyddiau hyd nes i'w drial dd'od,
'Doedd yno neb a'i safiai o fewn i'r dyrfa'n bod.

OC 38748967

Ac yna 'r *Supervisor* a'r *Doctor* ddaeth i'r fan.
Lle clywai'r holl gyn'lleidfa, adroddai'r rheiny eu rhan ;
A chwedi galw'r tystion i'r goleu yn ddigel,
Caed pawb a'u geiriau'n gywir, yn ddisel.

A'r barnwr a adroddai yn enw'r tri ac un,
Gan ddywedyd, trwy fawr gyffro, fod raid condemnio'r dyn
I ddyoddef marw ar grog-bren rhwng nefoedd wen a llawr,
Yn ymyl tref Caernarfon, lle tirion wiwlon wawr.

Mi adroddaf i chwi ei gyffes mewn hanes yma'n hŷ
A'r cwbl ddarfu ddywedyd er dydd y ddedryd ddu ;
Gobeithio bydd e'n rhybudd in' beunydd yn y byd,
I wrthod llwybrau satan yn gyfan oll i gyd.

Bum felly dridau a thair nos, yn agos iawn yn wir
Fel un f'ai bron gwallgofi gan ddirfawr gledi'n glir,
Gweddio ar yr Arglwydd ro'i llwyddiant ar fy ngwaith,
Gan addo peidio gwedi'n ar derfyn pen y daith.

Cyfaru'm ddau bendefig ar ben y Penmaen mawr,
Meddyliais ddwyn eu bywyd mewn munud, enyd awr ;
Fe ffaeliodd fy nghydwybod gan drallod hynod hir,
A gwneuthur y fath weithred, oer dynged galed gur.

Fy mhleser yn fy mywyd oedd dilyn chwantau'r cnawd,
A thwyllo merched ieuaingc i ddyoddef gwyn a gwawd ;
A'm heglwys ddydd Sul beunydd, yn ufudd deg a wnawn
Sef meddwi hyd dafarnau o foreu hyd brydnhawn.

Pysgota a chwareu cardia ddydd Suliau a wnawn i'n siwr,
A chanlyn y rhai gwaetha'n y dyrfa i lan y dw'r;
A'r Arglwydd yn fy nghadw rhag chwerw garw gur,
A minnau oedd a'm hanian am ddilyn Satan sur.

O Arglwydd maddeu i mi er mwyn dy enw mawr,
'R hwn sy'n llywodraethu y nefoedd wen a'r llawr,
Ti fuost rhwng dau leidr ar groes Calfaria fryn,
'Rwyf finnau'n dyoddef heddyw, fy haeddiant ydyw hyn

Pan ddaeth y mab afradlon yn ol i dir ei wlad,
Fe gafodd barch a mwynder yn dyner gan ei dad ;

Af finnau at yr Arglwydd mewn edifeirwch llawn,
'R un modd a'r hen Fanasse a bechodd dan brydnhawn.

O ddeutu mis cyn hyny, ca'dd freuddwyd hynod iawn
Sef gweled y c'lommenod yn dod yn deg eu dawn:
Daeth heibio ddwy golommen, gan 'hedeg dros y pren,
'Roedd un yn las o'r rhei'ny, a'r llall i gyd yn wen.

Pryd hyny fe weddiodd ar gyhoedd yno'n gu,
Am wneuthur pawb yn barod cyn delo'r diwrnod du;
Mi welaf y c'lommenod yn dyfod yma'n deg,
Rwy'n credu y caf drugaredd yr unfed awr ar ddeg.

Cyn gynted y gorphenodd y geiriau hyn i gyd,
Fe'i bwriwyd ef mewn munud o'i benyd yn y byd;
Y'nghrog rhwng nef a daear, mae trymder trist o'r tro
A galar mawr i'w weled mewn llawer bryn a bro.

Os gofyn neb yn un lle pwy luniai'r geiriau'n gu
Rhyw un a welodd drymder rhwng nef a daear ddu
Dymunwn ar yr Arglwydd fod beunydd i ni'n ben,
A dyna fy neisyfiad, mewn mwyniant bawb, Amen.

*Owain ap Cyffin, Migmint, Meirion,*
*a'i cant.*



*Llanrwst, Argraffwyd gan J. Jones.*